**<u>Pwyllgor Materion Ewropeaidd</u>**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **4 Ebrill 2001** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Cynhadledd Rhanbarthau Arforol Ymylol Ewrop (CPMR)** |

## <u>Cynhadledd Rhanbarthau Arforol Ymylol Ewrop (CPMR)</u>

Crëwyd Cynhadledd Rhanbarthau Arforol Ymylol Ewrop ym 1973 gan grp o ranbarthau a oedd yn poeni’u bod yn ymbellhau fwyfwy o ganolbwynt y per (dyna pam "ymylol") ar ôl i’r Gymuned Ewropeaidd gynyddu o chwe aelod i naw. Ers hynny, mae’r Undeb wedi cynyddu i bymtheg aelod ac, yn dilyn Cynhadledd Rynglywodraethol Nice, mae modd i ddeuddeg gwlad arall negodi i gael ymuno. Bydd hyn yn codi nifer aelodau’r UE i saith aelod ar hugain gydag ymgeiswyr posibl eraill yn aros i gael ymuno. Bydd yr UE yn ymestyn o’r Môr Baltig i Fôr yr Iwerydd ac o Fôr y Canoldir i Fôr y Gogledd. Bydd mwy a mwy o ranbarthau wedi’u lleoli ymhell o galon economaidd, daearyddol a gwleidyddol yr Undeb.

Mae’r CPMR yn hyrwyddo buddiannau rhanbarthau ymylol ac arforol yn sefydliadau’r UE. Mae’r CPMR yn gweithio ar draws amrediad o feysydd polisi gan gynnwys cydlyniad economaidd a chymdeithasol, cydweithio rhwng y rhanbarthau, trafnidiaeth, cadwraeth arfordirol a lles arforol.

Ar hyn o bryd mae gan CPMR 127 aelod, gan gynnwys rhanbarthau Lloegr a’r Alban. Arferai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod yn aelod ond fe adawodd am resymau ariannol. Nid oes unrhyw aelod o Gymru ar hyn o bryd.

**Ebrill 2001 Yr Is-adran Materion Ewropeaidd**